Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

**SWYDDOG SICRHAU ANSAWDD HYDRANTAU A DIFFODDYDDION**

**Rhif y Swydd: 505604**

**37 AWR YR WYTHNOS**

**GRADD 8: £30,296 i £31,364**

Cododd gyfle cyffrous am rôl swydd newydd parhaol o fewn y Tîm Hydrantau a Diffoddyddion, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX.

Mae rôl Swyddog Sicrhau Ansawdd Hydrantau a Diffoddyddion yn cynnwys cynorthwyo â chydlynu cyffredinol pob agwedd o gyflenwadau dŵr ar gyfer diffodd tanau o fewn ardal GTADC. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ansawdd a dyletswyddau gweinyddol ar gyfer yr adran, megis: -

- Cysylltu â datblygwyr a chontractwyr;
- Codi a monitro archebion trwsio a chynnal a chadw â chyflenwyr 3ydd parti;
- Sicrhau ansawdd atgyweiriadau a phrofi hydrantau a diffoddyddion;
- Cynnal asesiadau ar hydrantau arfaethedig i bennu os bydd modd eu mabwysiadu i'r rhaglen arolygu hydrantau;
- Cynnal cynhaliaeth flynyddol i ddiffoddyddion yn unol â system ansawdd BSI a Chanllaw BAFE ar gyfer Cynnal a Chadw.

Bydd gofyn i ymgeiswyr feddu ar y canlynol: -

- Trwydded yrru lawn o'r DU ar gyfer teithio rhwng safleoedd;
- Cymhwyster Dilys Pennod 8 Street Works a Mecanwaith Diffoddyddion BAFE;
- Lleiafswm o bum mlynedd o brofiad fel technegydd hydrantau;
- Profiad o sicrhau ansawdd gweithfeydd a gwblhawyd gan gontractwyr allanol;
- Gradd C TGAU neu uwch mewn Saesneg Iaith, Mathemateg a TGCh NEU Lefel 2 Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu, Cymhwyso Llythrennedd a Rhifedd Digidol.

Rydym yn sefydliad sy'n gyfeillgar i deuluoedd, ac mae system gweithio hyblyg mewn grym. I weld buddion gweithio gyda ni, ewch at: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/buddion/

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun gwiriad cofnod troseddol sylfaenol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd gofyn iddo/iddi ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn gwneir penodiad.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **12:00 canol dydd, 12/08/24**. Dylid cwblhau Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio a ellir ei gyrchu drwy law ein gwefan: www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-â-ni/-swyddi gwag/

Os bydd angen fersiwn papur, e-bostiwch: personél@decymru-tan.gov.uk Nodwch fydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau drwy law'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd wrth ymgeisio; Sicrhewch eich bod yn gwirio pob ffolder e-bost yn rheolaidd. Dylai pob ymgeisydd mewnol ymgeisio drwy law eu porthol CORE, wrth ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd.

**Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i**

Cyflogwr Cyflog Byw ydym ni

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG